Cynllun
Grant Coetir

Cynllun Premiwm
Coetir Fferm

Gorffennaf
2003

Nodiadau ar lenwi

eich ffurflenni

Cais

CGC–CPCFf 1

Cynnig

CGC–CPCFf 2

a

Thelerau ac Amodau

W·O·O·D·L·A·N·D GRANT SCHEME·

WGS

Cynllun Grant Coetir
Cynllun Premiwm Coetir Fferm

Bydd y nodiadau hyn yn eich helpu i lenwi eich ffurflen Gais (CGC–CPCFf 1) a'ch ffurflen Gynnig (CGC–CPCFf 2).

Wrth i chi lenwi pob adran yn y ffurflen, cyfeiriwch at yr adran briodol yn y nodiadau hyn, sydd wedi'u rhifo yn yr un ffordd â'r ffurflenni.

Cofiwch, ni fyddwch yn gymwys ar gyfer grant os gwnewch unrhyw waith sy'n tarfu ar y safle cyn i ni lofnodi eich contract.

Llenwi'r ffurflenni

Ysgrifennwch yn glir mewn inc neu deip du oherwydd y byddwn yn llungopïo'r ffurflenni.

Gallwch ddefnyddio cyfrifiadur neu brosesydd geiriau i gynhyrchu eich cais, ond rhaid dilyn yr un patrwm â'n ffurflenni, gan gynnwys y rhannau a ddefnyddiwn ni.

Os nad oes digon o le ar y ffurflen i roi popeth yr ydych chi am ei ddweud, rhowch y wybodaeth ar ddalen ar wahân. Nodwch yr adran a'r cwestiwn perthnasol ar ben y dudalen.

Os ydych am drafod unrhyw beth ynghylch eich cais, neu os oes angen rhagor o gopïau arnoch, cysylltwch â'ch swyddfa Comisiwn Coedwigaeth leol. Mae'r cyfeiriadau a rhifau ffôn ar ddiwedd y llyfryn hwn.

Ymgeiswyr CPCFf

Os ydych chi'n gwneud cais o dan y Cynllun Premiwm Coetir Fferm (CPCFf), y Comisiwn Coedwigaeth fydd eich cysylltiad cyntaf ar gyfer unrhyw wybodaeth am y cynllun hwn.

Cyn llenwi eich ffurflen gais, byddwch cystal â darllen y llyfryn CPCFf, yn y pecyn hwn, sy'n disgrifio rheolau'r cynllun hwn.

Byddwn yn anfon manylion eich cais i'ch swyddfa Adran Amaeth leol (Cymru) neu eich Gwasanaeth Datblygu Gwledig lleol (Lloegr) sy'n gyfrifol am gymeradwyo taliadau CPCFf.

Rhaid i chi beidio â dechrau unrhyw waith hyd nes i chi dderbyn contract CGC wedi'i lofnodi a chymeradwyaeth CPCFf.

Hawlio Grant

Rhaid i chi hawlio eich grantiau CGC gan y Comisiwn Coedwigaeth, gan ddefnyddio'r ffurflen Gais CGC–CPCF 3. Mae nodiadau ar gael gan y Comisiwn i'ch helpu i lenwi'r ffurflen hon.

Gwneir taliadau CPCFf gan yr Adran Amaeth (Cymru) neu'r Gwasanaeth Datblygu Gwledig (Lloegr) ond gallwch hawlio taliadau'r pum mlynedd cyntaf ar y ffurflen CGC–CPCFf 3. Gallwch gael copi o'r ffurflen hon gan Swyddog Coetiroedd y Comisiwn Coedwigaeth.

Mae cyfanswm yr arian sydd ar gael i gyllido taliadau blynyddol o dan y Cynllun Premiwm Coetir Fferm wedi'i bennu ymlaen llaw. Os yw galw gryn dipyn yn uwch na'r disgwyl, efallai y bydd angen gohirio derbyn ceisiadau newydd neu gymeradwyo ceisiadau presennol a newidiadau i gynlluniau trawsnewid. Dywedir wrthych os yw hyn yn digwydd ac eglurir y goblygiadau.

cynnwys

tudalen

Sut i farcio'r map 4

Enghraifft o fap wedi'i gwblhau 5

Sut i lenwi'r ffurflen gais (CGC–CPCFf 1)

Adran 1	Yr eiddo	6
Adran 2	Manylion yr ymgeisydd	7
Adran 3	Manylion unrhyw ymgeisydd arall	7
Adran 4	Manylion eich asiant neu reolwr coetir	7
Adran 5	Math o ymgeisydd	7
Adran 6	Ardaloedd arbennig, Gorchmynion Cadw Coed, Ardaloedd Cadwraeth a thir wedi'i warchod	8
Adran 7	Manylion y daliad amaethyddol	9
Adran 8	Categori tir	9
Adran 9	Ardaloedd CPCFf eraill	9
Adran 10	Adfeddiannu tir a Chydsyniad y landlord	9
Adran 11	Tir Comin	10
Adran 12	Grantiau eraill a Thrwyddedau Torri Coed	10
Adran 13	Eich amcanion	10

Sut i lenwi'r ffurflen gynnig (CGC-CPCFf 1)

Adran 1	Enw'r eiddo	11
Adran 2	Disgrifiwch eich cynigion gwaith cyffredinol	11
Adran 3	Manylion eich cynnig	12
	Llenwi'r colofnau	12
	CPCFf	12
	Calendr	12
	Sut i ffurfio Uned Reoli	12
	Enghraifft o Uned Reoli	13
	Rhestr o godau gweithgaredd	14
	Rhestr o godau rhywogaeth	16
	Ymgeiswyr CPCFf – Colofnau 10 ac 11	17
	Beth i'w wneud â'ch cais	17

Telerau ac Amodau 19

Y map

Mae map Arolwg Ordnans cyfoes yn rhan hanfodol o'ch cais. Byddwn yn ei ddefnyddio i asesu eich cynigion a bydd yn ffurfio rhan o'ch contract CGC.

Gallwch ddefnyddio copi o ansawdd da neu fap gwreiddiol. Byddwn yn derbyn copïau papur o fapiau digidol (wedi'u cynhyrchu o ddata a ddelir ac a atgynhyrchir gan gyfrifiadur). Gall eich Swyddog Coetiroedd ddweud wrthych sut i gael map.

Byddwn yn mesur y map i gadarnhau'r arwynebeddau a roddir yn eich cais. Bydd y grant yn seiliedig ar y mesuriad hwn. Os yw ein mesuriad ni yn wahanol i'r arwynebeddau yn eich cais byddwn yn rhoi gwybod i chi.

Cyn marcio'r map sicrhewch:

- *ei fod yn fap arolwg ordnans (AO) cyfoes;*
- *bod y raddfa yn 1:10000 (gallwch ddefnyddio graddfa 1:2500 ar gyfer arwynebeddau bach);*
- *bod y raddfa wedi'i marcio ar y map;*
- *bod y llinellau grid i'w gweld yn glir;*
- *bod o leiaf dwy linell grid lorweddol a dwy linell grid fertigol i'w gweld;*
- *na fydd unrhyw fanylion yn cael eu cuddio gan blygion na marciau eraill.*

Graddfa

Ar fap 1:2500 mae'r llinellau grid yn 4 centimetr oddi wrth ei gilydd. Ar fap 1:10000 maent hwy'n 10 centimetr oddi wrth ei gilydd. Rhaid gwirio'r mesuriadau hyn ar lungopi i sicrhau eu bod yn gywir oherwydd y caiff yr arwynebeddau eu mesur i gyfrifo'r grant.

Os nad ydych chi'n siwr ynghylch unrhyw fanylion, gallwch farcio'r map mewn pensil neu ddefnyddio llungopi o ansawdd da. Gallai fod yn syniad da i chi gadw copi heb ei farcio o'ch map rhag ofn bod newidiadau'n cael eu gwneud i'ch cynigion cyn llunio'r contract terfynol.

I'n helpu ni i ystyried eich cais rhaid i chi farcio'r canlynol ar y map:

- *ffin allanol pob ardal;*
- *croes a chyfeirnod grid AO i ddangos yr ardal lle bydd y* ***rhan fwyaf o'r gwaith yn eich cais*** *yn digwydd;*
- *croes a chyfeirnod grid AO i ddangos y man mynediad i'r eiddo;*
- *rhif neu enw pob coetir;*
- *y gweithgareddau yr ydych chi'n bwriadu eu cynnal ym mhob ardal, gan ddefnyddio'r byrfoddau ar dudalen 15;*
- *dylid dangos rhifau cae FIS neu IACS hefyd os ydych chi'n gwneud cais CPCFf.*

Ffin adran

Ffin is-adran

3 / 4.6 — Rhif Adran / Arwynebedd Adran (ha)

1ha = 2.47 erw

Os ydych wedi rhannu eich coetir yn adrannau, dangoswch y rhain ar y map gan ddefnyddio'r symbolau gyferbyn.

Ni ddylai unrhyw linellau a dynnwch nac unrhyw ysgrifen guddio manylion y map.

Os ydych am roi gwybodaeth arall i ni ar fap e.e. rhywogaethau, blwyddyn blannu, nodweddion arbennig, ardaloedd wedi'u gwarchod, cewch wneud hyn, ond defnyddiwch gopïau eraill os bydd hyn yn gliriach. Rhaid marcio ffin y cais yn glir. Gellir ei dangos mewn dwy ffordd:

1) Defnyddio llinell ddi-dor ddu. Tynnwch hi mor denau â phosibl. Byddwn yn mesur y tu mewn i'r llinell, neu
2) Marcio tu mewn y ffiniau â phin goleubwyntio melyn. Dull hawdd a chyflym yw hwn. Nid yw'n cuddio manylion ac mae'n sicrhau y gellir mesur yr arwynebedd mwyaf sy'n gymwys.

Dyma enghraifft o fap wedi'i farcio'n gywir.

Defnyddir ▬ (i gynrychioli goleubwyntio) i ddangos y ffin yn yr enghraifft ganlynol.



Mae'r enghraifft yn dangos Grant Rheoli Blynyddol a pheth torri ac ailstocio i greu goetir o oedran anwastad. Ceir peth teneuo hefyd.

1 Enw neu rif Uned Reoli	2 Arwynebedd Uned Reoli (ha)	3 Rhifau cae FIS neu IACS o fewn yr Uned Reoli	4 Arwynebedd o fewn cae FIS a IACS (ha)	5 Gweithgaredd	6 Blwyddyn blannu	7 Rhywogaethau	8 Arwynebedd gweithgaredd (ha)
0001 (Is-adrannau 1a, 2a, 2b & 4)	47.3 AM			T MC AM	 44.7	MC OG	44.7 2.6
0002 (Is-adran 1b)	6.6 RP RP			F RP 1998 1998	1947 1998 OG MB	MC CP 0.6 1.0	6.6 5.0
0003 (Is-adrannau 3a, 3b & 3c)	22.9 RN AM			OL SF 1997	 1901 OK OK	 OK 4.6 7.4	10.9 4.6
0004 (Is-adran 3d)	3.5			F RP	1947 1998	MC MB	3.5 3.5
0005 (Adran 5)	1.7	6132		NB	1999	MB	1.7
0006 (Adran 6)	6.1			AM		MB	6.1

eich cais

Mae'r ffurflen hon yn dweud wrthym:
amdanoch chi;
am ymgeiswyr eraill, os oes rhai;
am eich asiant neu reolwr, os oes gennych un;
am eich unedau amaethyddol;
am unrhyw ardaloedd arbennig neu wedi'u gwarchod;
ac am eich amcanion.

1 Yr eiddo

Enw'r coetir neu eiddo

Mae angen i ni wybod beth yw'r ardal neu goetir yr ydych am ei gynnwys yn y CGC a'r CPCFf os yn briodol.

Tref neu bentref agosaf

Ysgrifennwch enw'r dref, pentref neu gymdogaeth (os oes ganddi enw) sydd agosaf at yr ardal yn eich cais.

Defnydd o'r eiddo

Mae angen gwybodaeth arnom am y prif ddefnydd a wneir o'ch tir. O'r rhestr isod, dewiswch y term sy'n disgrifio'r eiddo orau:

ffermio neu arddwriaeth . . . . . **FFERM**

ardaloedd mawr o ffermio a choetir. . . . . **YSTAD GYMYSG**

coetiroedd yn bennaf . . . . . **COETIR YN BENNAF**

ardal o gwmpas cartref teuluol, ond nid fferm . . . **ANNEDD PREIFAT**

fe'i defnyddir ar gyfer hamdden, megis cwrs golff,
parc gwledig, gwesty neu ardal gadwraeth . . . . . **HAMDDEN**

ysgol, ysbyty, cartref ymddeol -
cyhoeddus neu breifat. . . . . **ADEILAD CYHOEDDUS**

bu'n bwll glo, mwynglawdd, ffatri neu swyddfa
neu mae'n adfail bellach . . . . . **DIWYDIANNOL**

Cyfeirnod Grid AO

Mae cyfeirnod grid AO ar ffurf dwy lythyren wedi'u dilyn gan chwe rhif. Mae'r mwyafrif o fapiau AO yn egluro sut i ddarganfod y cyfeirnod.

Ar y ffurflen hon (CGC-CPCFf 1), rhowch **yn gyntaf** gyfeirnod grid yr ardal lle bydd y rhan fwyaf o'r gweithgaredd yn eich cais yn digwydd, a marciwch hyn ***"Gweithgaredd"***. Wrth ei ymyl, ysgrifennwch gyfeirnod grid y man mynediad agosaf i'r ardal hon, a marciwch hwn ***"Mynediad"***. Bydd ein Swyddog Coetiroedd am ymweld â'r eiddo, drwy apwyntiad, wrth ystyried eich cais.

Os oes sawl coetir neu ardal sy'n weddol bell oddi wrth ei gilydd, bydd yn ddefnyddiol os dangoswch sawl man mynediad a chyfeirnod grid ar y map yn unig.

Awdurdodau lleol

Rhowch enwau'r Cyngor Dosbarth a Chyngor Sir sy'n gyfrifol am yr ardal, gan y bydd yn rhaid i ni drafod eich cais gyda'u hadrannau cynllunio.

2 Manylion yr ymgeisydd

Os chi yw'r perchennog, deiliad prydles neu denant amaethyddol, byddwch cystal â llenwi'r adran hon. Os chi yw'r asiant sy'n gweithredu ar ran y perchennog neu ddeiliad prydles, byddwch cystal â llenwi'r adran hon ar ei ran.

Enw Rhowch eich teitl, blaenlythrennau a chyfenw.

Corff Os ydych chi'n cynrychioli corff, rhowch enw'r corff.

Swydd Os ydych chi'n gwneud cais ar ran corff, rhowch eich swydd e.e. rheolwr coetir, ysgrifennydd cwmni.

Cyfeiriad Rhaid cynnwys y côd post.

Rhif ffôn a ffacs Rhaid i'ch rhifau ffôn a ffacs gynnwys y côd deialu cenedlaethol.

E-bost Rhowch eich cyfeiriad e-bost busnes neu bersonol.

Cysylltiad Os ydych am i ni ddelio'n uniongyrchol â chi, ticiwch y blwch "Ie" wrth "Y cyfeiriad hwn ar gyfer gohebiaeth?".

3 Manylion unrhyw ymgeisydd arall

Os yw sawl person ar y cyd yn berchen ar y tir neu'n ei rentu ar brydles, mae angen i ni wybod pwy ydynt. Ysgrifennwch y wybodaeth yn yr un ffordd ag yn adran 3.

4 Manylion eich asiant neu reolwr coetir

Os oes gennych un, ysgrifennwch y manylion yma. Byddwn yn ymdrin yn uniongyrchol ag ef neu hi os ticiwch y blwch "Ie" wrth "Y cyfeiriad hwn ar gyfer gohebiaeth?". Bydd angen i chi roi llythyr awdurdodi neu ddogfen gyfreithiol arall i'ch asiant neu rywun arall os ydych am iddynt lofnodi'r contract ar eich rhan.

Cysylltiad arall: Os nad ydych yn berchennog nac yn asiant, ond os ydych am i ni gysylltu â chi ynghylch y cais hwn, rhowch eich enw a chyfeiriad llawn ar ddalen ar wahân o bapur a chysylltwch hi wrth y cais hwn.

5 Math o ymgeisydd

a. Mae angen gwybodaeth arnom am y bobl sy'n gwneud y cais.

Dewiswch y disgrifiad o'r rhestr isod sy'n disgrifio preswyliwr yr eiddo orau:

Yr ydych chi neu'ch teulu yn berchen ar yr eiddo neu'n ei rentu ar brydles, neu'n ei ddal fel ymddiriedolaeth deuluol, partneriaeth neu fferm deuluol. . . . . **PRESWYLIWR PERSONOL**

Cwmni, buddsoddwr coedwigaeth, partneriaeth busnes, syndicet neu gronfa bensiwn . . . . . **PRESWYLIWR BUSNES**

Wedi'i ariannu drwy danysgrifiad cyhoeddus neu'n ymddiriedolaeth elusennol neu'n gorff cymunedol. . . . . **CORFF GWIRFODDOL**

Adran o'r Llywodraeth neu awdurdod lleol . . **PERCHENOGAETH GYHOEDDUS**

Dim un o'r uchod . . . . . **ARALL**

b. Ticiwch y blwch priodol i ddangos a ydych yn berchennog preswyl, deiliad prydles, tenant amaethyddol, neu ymddiriedolaeth.

c. Mae angen y wybodaeth hon arnom i hawlio arian yn gywir gan y Comisiwn Ewropeaidd.

d. Os cymerir tir yn ôl oddi ar denantiaid drwy gyfrwng Rhybudd i Ymadael sy'n cael ei ymladd, yna nid yw'r tir hwnnw yn gymwys ar gyfer y CGC na'r CPCFf.

e. Gall y Llywodraeth hawlio rhan o'r taliadau a wneir o dan y Cynllun Grant Coetir a'r Cynllun Premiwm Coetir Fferm gan y Comisiwn Ewropeaidd. I'w alluogi i hawlio'r ad-daliad priodol, byddwch cystal â thicio'r blwch "Ydwyf" os derbyniwch 25% neu ragor o'ch incwm cyfan am ffermio'r daliad; fel arall ticiwch y blwch "Nac ydwyf". (Nid yw hyn yn effeithio ar y ffordd yr ystyriwn eich cais.)

6 Ardaloedd arbennig, Gorchmynion Cadw Coed, Ardaloedd Cadwraeth a thir wedi'i warchod

Os yw'r cynigion yn effeithio ar Orchymyn Cadw Coed (TPO) neu ar goed mewn Ardal Gadwraeth, **rhaid** i chi roi gwybod i ni, gan roi enw llawn a dyddiad y Gorchymyn neu'r Ardal Gadwraeth ac enw'r awdurdod lleol sy'n gyfrifol (am y Gorchymyn neu'r Ardal Gadwraeth).

Yng Nghymru a Lloegr, ni fydd trwydded torri coed yn cynnwys torri coed a gynhwysir mewn Gorchymyn Cadw Coed neu sydd mewn Ardal Gadwraeth os nad ydych wedi nodi bodolaeth y Gorchymyn neu Ardal yn y cais.

Ysgrifennwch y byrfodd ar gyfer statws y coed sydd wedi'u gwarchod neu ardal ddynodedig arall, gan ddefnyddio'r rhestr isod, a rhowch fanylion byr. Rhowch enw neu rif yr Unedau Rheoli yn y cais hwn yr effeithir arnynt gan y dynodiad a dangoswch hyn ar fap os oes modd.

Bydd y Swyddog Coetir yn gallu rhoi cyngor os nad ydych chi'n siwr a yw unrhyw ddynodiad isod yn berthnasol i'ch eiddo chi.

Cadwraeth	Gwarchodfa Natur Genedlaethol	NNR
	Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig	SSSI
	Safle Arfaethedig o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig	PSSSI
	Ardal Gadwraeth Awdurdod Lleol	LACA
	Ardal Gadwraeth Arall	OCA
	Gorchymyn Cadw Coed	TPO
	Coetir Lled-Naturiol Hynafol	ASNW
	Coetir Lled-Naturiol Arall	OSNW
	Safle Coetir Hynafol	AWS
Tirwedd	Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol	AONB
	Parc Cenedlaethol	NP
	Ardal Olygfaol Genedlaethol	NSA
Hamdden a Mynediad i'r Cyhoedd	Coedwig Gymunedol	CF
	Hawliau Tramwy Cyhoeddus	PRW
Archaeoleg	Heneb Restredig	SAM
	Heneb Arall	OAM
Nodweddion Eraill	Ffordd-freintiau, llinellau trydan, piblinellau ac ati	WL
	Cyflenwadau dŵr a chysiau dŵr	WS
Amaethyddiaeth	Neilldir	SA95
	Ardal Lai Ffafriedig	LFA
	Ardal Amgylcheddol Sensitif	ESA

7 Manylion y daliad amaethyddol

Enw'r ymgeisydd — Rhowch eich teitl, blaenlythrennau a chyfenw.

Swydd — Rhowch eich swydd yn y busnes ffermio.

Enw'r busnes — Dyma'r enw a ddefnyddiwch ar gyfer cyfrif banc eich busnes.

Cyfeiriad y busnes — Rhowch y cyfeiriad lle hoffech dderbyn gohebiaeth a thaliadau grant.

Rhif y Prif Ddaliad — e.e. 12/345/678

8 Categori tir

Ar gyfer pob Uned Reoli yn eich cais, dywedwch pa gategori tir sy'n berthnasol:

Y Tu Allan i Ardaloedd Llai Ffafriedig - OLFA
Ardal Lai Ffafriedig - ardal dan anfantais - LFA DA
Ardal Lai Ffafriedig - ardal dan anfantais ddifrifol - LFA SDA

Os effeithir ar ran o Uned Reoli yn unig, nodwch yr arwynebedd. Rhaid i chi ddangos yr arwynebeddau hyn ar eich map. Os nad ydych chi'n siwr i ba gategori y mae eich tir yn perthyn, cysylltwch â'ch swyddfa Comisiwn Coedwigaeth leol.

9 Ardaloedd CPCFf eraill

Rhowch fanylion tir arall yr ydych eisoes yn hawlio ar ei gyfer o dan y CPCFf. Rhowch rif y fferm neu Ddaliad Amaethyddol neu'r rhif CPH a chyfanswm yr arwynebedd.

10 Adfeddiannu tir a Chydsyniad y landlord

Ticiwch y blwch priodol i ddweud wrthym a yw'r tir yn cael ei adfeddiannu neu a fydd angen cydsyniad y landlord i wneud y plannu.

Os ydych chi'n gwneud cais CPCFf mewn perthynas â thir yr ydych chi'n ei ddal fel tenant, bydd angen i chi gael caniatâd ysgrifenedig y landlord. Dywedwch wrthym os dyma'r sefyllfa. Byddwn yn anfon Ffurflen Cydsyniad Landlord (CPCFf 7) atoch, y mae'n rhaid i chi ei llenwi a'i dychwelyd cyn y gallwn gymeradwyo'ch cais. Gallwch gael copi o'r ffurflen hon gan eich swyddfa Warchodaeth leol.

11 Tir Comin

Ticiwch y blwch os yw'r tir neu unrhyw ran ohono yr ydych chi'n bwriadu ei blannu yn Dir Comin (wedi'i gofrestru o dan Ddeddf Tir Comin 1899).

12 Grantiau eraill a Thrwyddedau Torri Coed

a. Comisiwn Coedwigaeth

Mae angen i ni wybod a ydych wedi cael cymeradwyaeth ar gyfer unrhyw rai o'r canlynol mewn perthynas â'r tir yn eich cais:

Cynllun Grant Coetir	WGS
Cynllun Premiwm Coetir Fferm	FWPS
Cynllun Coetir Fferm	FWS
Cynllun Cyflwyno	DED
Cynllun Grant Coetir Llydanddail	BWGS
Cynllun Grant Coedwigaeth	FGS
Trwydded Torri Coed	FL
Arall, enwch	

b. Grantiau cyfalaf amaethyddol neu arddwriaethol

Ysgrifennwch yr enw neu fyrfodd a rhowch y cyfeirnod wrth ei ymyl. Os oes modd, dangoswch ble y mae ar y map.

Dywedwch wrthym os ydych wedi cael grant gan adran arall o'r Llywodraeth yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf ar gyfer unrhyw ardal yn eich cais e.e. taliad o dan gytundeb ESA, Neilldir (Set Aside), Grant Datblygiad Amaethyddol, Stiwardiaeth Cefn Gwlad, neu os ydych chi'n bwriadu gwneud cais o dan y Cynllun Grant Fferm a Chadwraeth neu'r Cynllun Premiwm Cefn Gwlad.

c. Grantiau eraill

Rhowch fanylion unrhyw grantiau eraill yr ydych chi'n eu derbyn ar gyfer y tir yn eich cais.

13 Eich amcanion

Cyn i chi gynllunio unrhyw waith, ystyriwch yn ofalus yr hyn yr ydych chi'n ceisio ei gyflawni. Rydym wedi rhestru rhai amcanion posibl a hoffem i chi nodi'r flaenoriaeth a roddwch iddynt. Nid yw'r blaenoriaethau wedi'u rhestru mewn unrhyw drefn arbennig. Unig bwrpas y rhifau wrth ymyl pob un yw helpu'r Comisiwn Coedwigaeth i fewnbynnu data i'w gyfrifiaduron.

Dewiswch yr amcanion sy'n berthnasol i'r ardal yn eich cais. Ticiwch y blychau priodol i ddangos blaenoriaeth uchel, canolig neu isel.

Llofnodi'r ffurflen

Byddwch cystal â darllen yr adran "Datganiad a Llofnod" a'r datganiadau ynghylch y Ddeddf Gwarchod Data a'r Rheoliadau Asesu Effaith ar yr Amgylchedd cyn llofnodi'r ffurflen hon.

Yn awr llenwch y ffurflen Gynnig CGC-CPCFf 2.

eich cynnig

Tudalen 1 o'ch Cynnig

Os defnyddiwch fwy nag un ffurflen gynnig byddwch cystal â rhifo pob dalen yn y lle gwag a ddarparwyd.

1 Enw'r eiddo

Enw

Ysgrifennwch yr un enw ag a roddasoch ar eich ffurflen gais.

2 Disgrifiwch eich cynigion gwaith cyffredinol

Dywedwch wrthym am unrhyw waith a thriniaethau yr ydych chi'n bwriadu eu gwneud ar y cyfan neu ran o'r tir yn eich cais. Cynhwyswch grynodeb o beth fydd cyflwr y coetir ar ôl cwblhau'r cynllun. Rhaid cynnwys digon o fanylion i ni allu penderfynu a allwn dderbyn eich cynigion. Mae'r llyfrynnau CGC ac Amgylchedd Coedwig yn egluro'r hyn yr ydym yn chwilio amdano. Mae'n bosibl y bydd enghreifftiau o ffurflenni wedi'u llenwi ar gael yn eich swyddfa Comisiwn Coedwigaeth leol.

Os ydych am wneud cais am Grant Gwella Coedwig (WIG) neu Bremiwm Coedwig Gymunedol (CFP), rhowch fanylion yr ardaloedd dan sylw (defnyddiwch golofnau 1 i 8 ar y ffurflen Gynnig) a pha waith a fydd yn cael ei wneud (yng ngholofn 11).

Byddwch cystal â sylwi, os ydych chi'n gwneud cais am WIG, y bydd angen i chi lenwi CGC 6 yn ogystal â CGC 1 a 2. Os ydych chi'n gwneud cais am grantiau o'r gronfa her WIG, bydd angen i chi gyflwyno ffurflen CGC 6a.

Dylech ddweud wrthym hefyd am unrhyw gymdogion y gall eich cynigion effeithio ar eu heiddo, yn enwedig os ydych chi'n bwriadu plannu coetir newydd. Cynhwyswch nodyn neu gofnod o unrhyw drafodaethau yr ydych wedi'u cael gyda hwy neu gytundebau y daethpwyd iddynt.

Rhestrir isod rai o'r pethau y gall fod angen i chi eu hystyried. Nid yw'r rhestr yn gynhwysfawr a gall blaenoriaethau amrywio o gynllun i gynllun.

Plannu Newydd, Ailstocio, ac Ailddyfiant Naturiol	**Cynllun tirwedd** **Diogelu nodweddion amgylcheddol** **Sylw i gyrsiau dŵr** **Paratoi'r safle** **Y rhywogaethau i'w plannu, cymysgeddau a phatrymau plannu,**	**lle rhwng coed** **Diogelu rhag stoc, ceirw, cwningod ac ati, rheoli chwyn** **Ailblannu os ceir colledion** **Ail-leoli coed sy'n aildyfu'n naturiol**
Torri a Chlirio, a Theneuo	**Cynllun tirwedd** **Math a phatrwm torri a theneuo coed** **Y llwybr a ddefnyddiwch i fynd â choed allan**	**Diogelu nodweddion amgylcheddol** **Oedran y cnwd** **Rhesymau dros dorri a theneuo ac unrhyw ffactorau arbennig** **Sylw i gyrsiau dŵr**
Adeiladu neu Uwchraddio Ffyrdd	**Y llwybr arfaethedig - dangoswch hwn ar y map**	**Y defnyddiau y byddwch yn eu defnyddio**
Grant Rheoli Blynyddol	**Gweithgareddau hamdden - nifer y bobl y disgwylir iddynt ddefnyddio'r coetir a'r hyn a wnewch i hybu mynediad i'r cyhoedd**	**Sut y byddwch yn cynnal neu'n gwella gwerth amgylcheddol y safle**

Cyfraniad Coetir Cymunedol

Sut y byddwch yn darparu cyfleusterau ar gyfer y cyhoedd e.e. llwybrau, cynnal a chadw, cyhoeddusrwydd, maes parcio. Esboniwch sut y bydd eich cynigion yn cyd-fynd â'r Cynllun Strategol Coetir Cymunedol.

Dylech ddweud wrthym hefyd am unrhyw bapurau yr ydych chi'n eu hanfon i'n helpu i ddeall eich cynnig e.e. cynlluniau rheoli, cynlluniau coedwig, arolygon biolegol, lluniadau a ffotograffau.

Grant Gwella Coetir (WIG)

Ar hyn o bryd y mae tri phrif brosiect WIG. Gellir cael taflenni ar wahân ar gyfer pob prif brosiect a phob project a gyllidir o'r gronfa her. Mae'r taflenni'n disgrifio'r gwaith a fyddai'n gymwys ar gyfer y grant hwn. Gofynnwch i'ch swyddfa Comisiwn Coedwigaeth leol amdanynt.

3 Manylion eich cynnig: tudalen 2 ar y ffurflen Gynnig

Llenwi'r colofnau

Rhestrir rhai pwyntiau cyffredinol yma. Rhoddir rhagor o gymorth ar sut i lenwi pob colofn isod. Gweler tudalennau 14, 15 ac 16 am esboniadau o'r byrfoddau a ddefnyddir yn y tudalennau sy'n dilyn.

Defnyddiwch linell wahanol ar gyfer pob ardal a'r gweithgaredd, blwyddyn blannu ac ati sy'n gysylltiedig â hi.

CPCFf

Byddwch cystal â sylwi na fydd pob plannu sy'n gymwys ar gyfer y CGC yn gymwys ar gyfer y CPCFf. Bydd lleoedd agored a phrysgwydd yn gymwys ar gyfer taliadau blynyddol o dan y CPCFf lle bo'n briodol. Gallwch gael rhagor o fanylion yn y llyfryn ar y CPCFf.

Rhaid i ymgeiswyr CPCFf lenwi colofnau 3 a 4

Calendr

Gall y calendr hwn eich helpu i benderfynu pa flwyddyn ariannol neu blannu y dylech ei defnyddio.

BLWYDDYN 'P' 2003	BLWYDDYN 'P' 2004	BLWYDDYN 'P' 2005
BLWYDDYN GALENDR 2003 I Ch M E M M G A M H T Rh	BLWYDDYN GALENDR 2004 I Ch M E M M G A M H T Rh	BLWYDDYN GALENDR 2005 I Ch M E M M G A M H T Rh
BLWYDDYN ARIANNOL NEU HAWLIO 2003	BLWYDDYN ARIANNOL NEU HAWLIO 2004	BLWYDDYN ARIANNOL NEU HAWLIO 2005

Sut i ffurfio Uned Reoli

Gallwch leihau nifer y cofnodion ar eich cais drwy ffurfio Unedau Rheoli o'r coetiroedd, adrannau neu is-adrannau hynny lle'r ydych chi'n gwneud yr un math o waith ac y gellir ystyried yn synhwyrol eu bod yn ffurfio uned.

Os ydych wedi cyfuno ardaloedd i ffurfio Unedau Rheoli, dywedwch wrthym beth ydynt drwy eu rhestru o dan enw'r Uned Reoli neu drwy restru'r rhain yng Ngholofn 11 (tudalen 3). Rhaid gallu cysylltu eich Unedau Rheoli â'r hyn a ddangosir ar y map.

Os penderfynwch ddefnyddio Unedau Rheoli ar gyfer gwaith sefydlu, bydd angen defnyddio llinellau gwahanol ar gyfer pobl blwyddyn blannu ac ar gyfer coed llydanddail a chonwydd.

Os ydych chi'n gwneud cais am Grant Rheoli Blynyddol ar gyfer Uned Reoli gyfan, yna rhowch hyn ar un llinell ar eich cynnig. Os ydych chi'n gwneud cais am Grant Rheoli Blynyddol ar gyfer Uned Reoli lle'r ydych chi'n gwneud gwaith arall hefyd, gallwch roi Grant Rheoli Blynyddol ac un gweithgaredd arall ar yr un llinell.

1 Enw neu rif Uned Reoli	2 Arwynebedd Uned Reoli (ha)	3 Rhifau cae FIS neu IACS o fewn yr Uned Reoli	4 Arwynebedd o fewn cae FIS a IACS (ha)	5 Gweithgaredd	6 Blwyddyn blannu	7 Rhywog-aethau	8 Arwynebedd gweithgaredd (ha)
0001 (Is-adrannau 1a, 2a, 2b & 4)	47.3 AM			T MC AM	 44.7	MC OG	44.7 2.6
0002 (Is-adran 1b)	6.6 RP RP			F RP 1998 1998	1947 1998 OG MB	MC CP 0.6 1.0	6.6 5.0
0003 (Is-adrannau 3a, 3b & 3c)	22.9 RN AM			OL SF 1997	 1901 OK OK	 OK 4.6 7.4	10.9 4.6
0004 (Is-adran 3d)	3.5			F RP	1947 1998	MC MB	3.5 3.5
0005 (Adran 5)	1.7	6132		NB	1999	MB	1.7
0006 (Adran 6)	6.1			AM		MB	6.1

Enghraifft ac esboniad o Uned Reoli
(Cyfeiriwch at y map ar dudalen 5)

Yn yr enghraifft ddychmygol hon, ceir dwy Uned Reoli sy'n cyfuno ardaloedd lle mae'r un gwaith yn cael ei wneud. Er bod y ddwy Uned Reoli wedi'u rhifo, gallai fod ganddynt enwau, e.e. gallai adran 3 fod yn "Goed y Cwm".

Uned Reoli 0001
Coed i'w teneuo a Grant Rheoli Blynyddol i'w hawlio am waith i ddod â'r coetir i fyny i'r safonau amgylcheddol cyfredol. Rhaid manylu ar y gwaith i'w wneud yng Ngholofn 11.

Uned Reoli 0002
Torri a chlirio arwynebedd o 6.6 ha ac ailstocio â phinwydd Corsica a choed llydanddail cymysg, gan adael rhai ardaloedd o werth cadwraethol fel tir agored, gan gynnwys creu tir agored ger cwrs dŵr ac ardal wlyb. Os yw'r tir agored yn rhy fach i'w fapio, dylid ei ddisgrifio yn y testun. Os ydych am dorri ac ailstocio mewn Uned Reoli rhaid i chi ddefnyddio cofnodion ar linellau gwahanol fel y dangosir.

Uned Reoli 0003
Dechrau adnewyddu'r coetir drwy dorri 4-6 ha yn ddetholus. Yr ardaloedd hyn i aildyfu'n naturiol gyda'r un rhywogaethau. Gall Tâl Dewisol fod ar gael ar gyfer y gwaith y mae angen ei wneud i hybu aildyfiant. (Rhowch y manylion yng Ngholofn 11, tudalen 3.) Mae Grant Rheoli Blynyddol yn cael ei hawlio am 7.4 ha. Mae'r Uned Reoli hon yn cynnwys ardal sy'n parhau o dan hen Gynllun Grant Coetir ac sydd wedi'i marcio "OL".

Uned Reoli 0004
Torri a chlirio 3.5 ha ac ailstocio â choed llydanddail cymysg.

Uned Reoli 0005
Tir âr i'w blannu â choed llydanddail cymysg. Mae hwn yn gymwys ar gyfer grant plannu a Chyfraniad Tir Gwell (BLC). *Cofiwch - gallwch wneud cais o dan y Cynllun Premiwm Coetir Fferm ar ffurflenni CGC-CPCFf 1 a 2.*

Uned Reoli 0006
Mae Grant Rheoli Blynyddol yn cael ei hawlio ar gyfer yr Uned Reoli gyfan am waith i waredu coed masarn o goetir derw lled-naturiol hynafol. Mae Grant Rheoli Blynyddol yn cael ei hawlio i ddiogelu'r gwerth amgylcheddol arbennig. Disgrifir y gwaith i'w wneud yng Ngholofn 10.

Colofn 1 Enw neu rif yr Uned Reoli

Ysgrifennwch enw neu rif yr Uned Reoli - o dan hwn neu yng Ngholofn 10, rhestrwch y coetiroedd, adrannau neu is-adrannau a ddangosir ar y map sydd wedi'u cynnwys yn yr Uned Reoli.

Colofn 2 Arwynebedd yr Uned Reoli mewn hectarau

Rhaid i Golofnau 3 a 4 gael eu llenwi gan bob ymgeisydd sy'n bwriadu plannu coed newydd
Wrth ymyl enw'r Uned Reoli, rhowch ei harwynebedd mewn hectarau. Gallwch roi hyn i ddau le degol.

Colofn 3 Rhifau cae FIS neu IACS o fewn yr Uned Reoli

Rhaid llenwi'r golofn hon os ydych chi'n plannu coetir newydd. Rhaid i chi roi'r rhifau cae FIS neu IACS ar gyfer pob Uned Reoli yn eich cais. Os nad ydych wedi cofrestru o dan IACS, yna rhaid i chi roi eich rhifau cae Grid Cenedlaethol Arolwg Ordnans.

Gallwch gael copi o'r llyfryn eglurhaol ar IACS gan swyddfa leol yr Adran Amaeth (Cymru) neu'r Gwasanaeth Datblygu Gwledig (Lloegr).

Colofn 4 Arwynebedd o fewn cae FIS neu IACS mewn hectarau

Os ydych yn plannu coed newydd ar ran yn unig o'r arwynebedd a ddynodir gan un rhif FIS neu IACS, rhowch yr arwynebedd hwnnw mewn hectarau.

Colofn 5 Gweithgaredd

Defnyddiwch fyrfodd o'r rhestr isod.

Os ydych am hawlio Grant Rheoli Blynyddol am yr un ardal ag yr ydych hi'n hawlio grant plannu, grant aildyfiant naturiol neu grant gwella coetir amdani, ysgrifennwch y ddau fyrfodd ar yr un llinell e.e. RP/AM.

Rhaid dangos gweithgareddau torri coed ar linellau gwahanol. Ni allwch gyfuno'r rhain â gweithgareddau eraill fel uchod.

Os oes ardaloedd yn eich cais nad ydynt yn gymwys ar gyfer grant, marciwch hwy ar y map os bydd hyn yn ein helpu i ddeall eich cais. Defnyddiwch y byrfodd "OL".

Plannu newydd

plannu newydd	**NP**
gyda Chyfraniad Tir Gwell	**NB**
cymwys ar gyfer cynllun neilldir	**NS**
drwy aildyfiant naturiol	**NN**
drwy aildyfiant naturiol gyda Chyfraniad Tir Gwell	**NL**
drwy aildyfiant naturiol (neilldir)	**NZ**
prysgoed (coppice)	**NC**

Plannu newydd (parhad)	prysgoed gyda Chyfraniad Tir Gwell	NK
	prysgoed cylchdro byr ar dir nad yw'n neilldir	NX
	prysgoed cylchdro byr ar neilldir	NY
	drwy ailblannu	RP
Ailstocio	drwy aildyfiant naturiol	RN
	gyda phrysgoed (plannu, nid aildyfiant)	RC
	gyda phrysgoed cylchdro byr (plannu, nid aildyfiant)	RQ
	drwy aildyfiant naturiol a geir eisoes	EN
Rheoli	Grant Rheoli Blynyddol	AM
	Grant Gwella Coedwig	WO
Torri	Teneuo	T
	Torri	F
	Torri detholus	SF
	Torri ac aildyfiant prysgoed	FC
Tir Arall	Ddim yn gymwys ar gyfer grant gyda dim torri na theneuo	OL

Colofn 6 Blwyddyn blannu (Blwyddyn P)

Rhowch y Flwyddyn P y byddwch chi'n gwneud y gwaith. Fodd bynnag, os ydych chi'n torri coed, rhowch y flwyddyn y cawsant eu plannu. Os ysgrifennwch 2003 neu P03 bydd hyn yn golygu 1af Hydref 2002 i 30ain Medi 2003, gan mai 2003 fydd tymor tyfu cyntaf y coed.

Yn achos y CPCFf mae disgwyl i chi lynu at y flwyddyn drawsnewid a nodir yn eich contract. Os dymunwch ohirio plannu neu blannu ynghynt **rhaid i chi ddweud wrthym ar y ffurflen Newidiadau CGC-CPCFf 4**.

Os gwyddoch ym mha flwyddyn y byddwch yn gwneud y gwaith, defnyddiwch linell wahanol ar gyfer pob blwyddyn blannu e.e. os bwriadwch ailstocio ym mhob o'r blynyddoedd 2003, 2004 a 2005, dylech ddefnyddio tair llinell.

Colofn 7 Rhywogaethau

Enwch y rhywogaethau yn yr Uned Reoli, gan ddefnyddio'r byrfoddau isod.

Os ydych chi'n bwriadu plannu neu reoli ychydig yn unig o rywogaethau neu arwynebeddau penodol iawn o bob un, defnyddiwch y byrfoddau isod a dangoswch hwy i gyd ar linellau gwahanol.

Os nad ydych, defnyddiwch y byrfoddau "NBL", "MB", "MC". Ystyr coed Llydanddail Brodorol yw rhywogaethau sy'n debygol o fod yn frodorol i'r ardal.

e.e. Ardaloedd i'w plannu gyda 20% Derw, 30% Ynn, 10% Ceiriosen Ddu, 10% coed llydanddail eraill (Criafolen, Ceiriosen yr Adar, Masarnen Leiaf), 10% Prysgwydd (Cyll, Breuwydden, Draenen Wen) ac 20% tir agored.

Broadleaves

Rhywogaeth	Math	Côd
Gwern		AR
	Gyffredin	CAR
	Lwyd	GAR
Onnen		AH
Aethnen		ASP
Ffawydden		BE
Bedwen		BI
	Lwyd	PBI
	Arian	SBI
Ceiriosen		WCH
Llwyfen		EM
Collen		HAZ
Oestrwydden		HBM
Pisgwydden		LI
	Deilen Fach	SLI
Masarnen	Leiaf	FM
	Norwy	NOM

Rhywogaeth	Math	Côd
Derwen		OK
	Goesog	POK
	Goch	ROK
	Ddigoes	SOK
Poplysen		PO
Criafolen		ROW
Castanwydden		SC
Masarnen		SY
Helygen		WL
	Las	GWL
	Grynddail	
	Fwyaf	CBW
Llydanddail Cymysg Brodorol		NBL
Llydanddail Brodorol		MB
Prysgwydd		WSH
Coed Llydanddail Eraill nad ydynt ar y rhestr hon		XB

Conifers

Rhywogaeth	Math	Côd
Cedrwydden	Goch	RC
Cypreswydden	Lawson	LC
Ffynidwydden	Douglas	DF
Ffynidwydden	Fawr	GF
	Urddasol	NF
Llarwydden	Ewrop	EL
	Groesryw	HL
	Japan	JL
Pinwydden	Corsica	CP
	Gamfrig	LP
	yr Alban	SP
	Galedonaidd yr Alban	SPC

Rhywogaeth	Math	Côd
Sbriwsen	Norwy	NS
	Sitka	SS
Hemlog y Gorllewin		WH
Ywen		YEW
Conwydd Cymysg		MC
Conwydd Eraill nad ydynt ar y rhestr hon		XC
Tir Agored		OG

Colofn 8 Arwynebedd y gweithgaredd mewn hectarau

Ysgrifennwch yr arwynebedd mewn hectarau i'r 0.01 ha agosaf. Nid oes angen i arwynebedd pob gweithgaredd a roddir yn y golofn hon adio i gyfanswm arwynebedd yr Uned Reoli a roddir yng ngholofn 2, ond rhaid i chi gytuno â'r arwynebedd a ddangosir ar y map.

Colofn 9 Blwyddyn Hawlio

Yn achos plannu newydd, aildyfiant naturiol newydd, Grant Gwella Coetir a Phremiwm Coedwig Gymunedol rhaid i chi roi'r **flwyddyn ariannol** (1af Ebrill hyd 31ain Mawrth) y byddwch chi'n hawlio'r grant. Gallwch bennu Blwyddyn Hawlio benodol am hyd at dair blynedd ymlaen llaw. Felly gallwch wneud y gwaith naill ai cyn neu yn ystod y Flwyddyn Ariannol yr ydych wedi'i phennu.

Dylech gyflwyno eich cais erbyn diwedd mis Chwefror yn y Flwyddyn Hawlio yr ydych wedi'i phennu er mwyn rhoi digon o amser i ni brosesu eich cais.

Pan ysgrifennwch y Flwyddyn Hawlio, defnyddiwch y ffurf 03/04 (1 Ebrill 2003 hyd 31 Mawrth 2004).

Os ydych am newid y Flwyddyn Hawlio, rhaid i chi ddefnyddio'r ffurflen Newidiadau CGC-CPCFf 4 i wneud hyn.

Rhaid i Golofn 10 gael ei llenwi gan bob ymgeisydd sy'n bwriadu plannu coed newydd

Colofn 10 Math o dir

Dylech gyfeirio at y llyfryn CPCFf i gael rhagor o gyngor a gwybodaeth am y diffiniadau a ganlyn.

Ar gyfer pob Uned Reoli, ysgrifennwch a yw'n:

Tir r (AL)	**Glaswelltir wedi'i Wella (IG)**
Tir Arall dan Gnwd (CL)	**Tir Heb ei Wella (UL)**

Tir Arall dan Gnwd yw tir dan gnwd **nad** yw'n gymwys ar gyfer y Cynllun Taliadau Arwynebedd Tir r.

Tir Heb ei Wella yw tir a fu'n cael ei ddefnyddio at bwrpas amaethyddol am o leiaf dair blynedd ond nad yw'n cael ei ystyried yn dir âr neu'n laswelltir wedi'i wella at ddibenion y CPCFf. Mae Tir Heb ei Wella yn gymwys ar gyfer y CPCFf yn yr Ardaloedd Llai Ffafriedig yn unig.

Tudalen 3 o'ch cynnig

Colofn 11 Os **nad** yw unrhyw waith gyferbyn wedi cael ei ddisgrifio ar dudalen 1, gwnewch hynny yma

Gellir defnyddio'r golofn hon i roi manylion unrhyw waith mewn Uned Reoli neilltuol na chafodd ei ddisgrifio ar dudalennau 1 a 2 e.e. rhywogaethau penodol, patrymau plannu ar gyfer plannu cymysg, neu sut y bwriadwch ymdrin ag angen amgylcheddol arbennig.

Mae tudalen 4 at ein defnydd ni

Beth i'w wneud â'ch cais

Wedi i chi lenwi eich ffurflen gais a'ch ffurflen gynnig, sicrhewch fod yr holl atebion yn gyflawn a chywir a bod y map wedi cael ei farcio'n gywir.

Yna anfonwch eich cais, cynnig, map a dogfennau perthnasol eraill i'ch swyddfa Comisiwn Coedwigaeth leol. Gallai fod yn syniad da i chi gadw copïau.

Beth sy'n digwydd nesaf

Mae'r llyfryn ar y Cynllun Grant Coetir yn manylu ar beth sy'n digwydd i'ch cynnig.

Os yw eich cynnig yn cynnwys plannu newydd neu dorri coed bydd crynodeb yn ymddangos ar y gofrestr gyhoeddus o geisiadau grant. Gall pobl ofyn am weld manylion eich cais. Gellir cael taflen am y Gofrestr Gyhoeddus o'ch swyddfa Comisiwn Coedwigaeth leol.

Bydd rhai ceisiadau'n cael eu llungopïo, neu cynhyrchir crynodeb ar gyfrifiadur, a'u hanfon ar gyfer ymgynghori fel y disgrifir yn y llyfryn ar y Cynllun Grant Coetir. Gellir gofyn i chi drafod newidiadau i'ch cynigion yn sgil yr ymgynghori.

Llofnodi eich contract

Pan fyddwn yn barod i gymeradwyo eich cynigion byddwn yn anfon dau gopi teipiedig o'ch contract (y contract 'drafft') a'r map atoch i'w harchwilio. Os ydych wedi gwneud cais o dan y CPCFf hefyd, byddwn yn cynnwys ffurflen Datganiadau ac Ymrwymiadau. Rhaid i chi lofnodi'r dogfennau hyn a'u dychwelyd i ni **o fewn chwe mis** neu bydd yn rhaid i chi wneud cais newydd.

Cwblhewch y "Ddalen manylion y talai" sydd ynghlwm wrth eich contract i ddweud wrthym pwy a fydd yn derbyn y grant. Os ydych yn defnyddio asiant, ac os hoffech iddo lofnodi eich contract, byddwch cystal ag amgáu eich awdurdod ysgrifenedig.

Pan dderbyniwn eich contractau CGC, a'ch Datganiadau ac Ymrwymiadau CPCFf (os ydych wedi gwneud cais o dan y CPCFf hefyd), byddwn yn llofnodi'r contractau (a'r Cytundeb os yn briodol) ac yn dychwelyd un copi i chi. **Ni chewch ddechrau'r gwaith hyd nes i chi dderbyn eich copi o'r contract, wedi'i lofnodi gennym ni.**

Cynllun Grant Coetir
contract

Rhannau'r contract hwn
Mae pedair rhan i'r contract hwn, gan gynnwys y dudalen hon, sef:

Rhan 1. Mae hon yn disgrifio'r gwaith i'w wneud a elwir yn 'Gynllun Gwaith' ym mhob rhan o'r contract hwn

Rhan 2. Yr Amodau sy'n berthnasol i'r contract hwn

Rhan 3. Map neu fapiau yn dangos ble y bydd y gwaith yn cael ei wneud

Rhan 4. Mae hyn yn dangos y partïon i'r contract

Partïon i'r contract hwn
Gwneir y contract hwn rhwng y Comisiynwyr Coedwigaeth (a elwir ym mhob rhan o'r contract hwn yn "ni") a'r person neu bersonau a restrir yn Rhan 4 o'r contract (a elwir ym mhob rhan o'r contract hwn yn "chi").

Llofnodi'r contract hwn
Drwy lofnodi'r contract hwn rydych chi'n cytuno i gael eich rhwymo gan yr Amodau yn Rhan 2 o'r contract. Rydym ninnau'n cytuno i gael ein rhwymo gan yr Amodau hyn.

Caniatâd i dorri coed
Nid yw Cynllun Grant Coetir yn rhoi caniatâd i chi dorri unrhyw goed a ddisgrifir yn y Cynllun Gwaith. Er mwyn cymeradwyo eich gwaith torri coed, byddwn yn ystyried bod eich contract llofnodedig yn gais ar gyfer trwydded dorri. Os penderfynwn gymeradwyo'r gwaith torri a ddisgrifir yn y Cynllun Gwaith, byddwn yn rhoi trwydded dorri ar wahân ar gyfer hyn pan gymeradwywn eich contract.

Hysbysiadau
Rhaid i unrhyw hysbysiad neu neges arall y mae angen i chi ei gyfleu o dan y contract hwn gael ei roi mewn ysgrifen a'i anfon drwy'r post, neu ei anfon drwy ddulliau cyfathrebu electronig atom ni yn ein swyddfa Gwarchodaeth neu swyddfa Ardal leol neu yn ein swyddfa Genedlaethol. Os oes angen i ni anfon hysbysiad atoch chi, neu os oes angen i ni roi ein cytundeb o dan y contract hwn, rhaid i ni ei anfon mewn ysgrifen neu drwy ddulliau cyfathrebu electronig atoch, oni bai ein bod ni wedi cytuno fel arall, i'ch cyfeiriad a roddwyd yn y contract hwn neu at yr un cyntaf ohonoch sydd wedi'i enwi yn y contract hwn yn y cyfeiriad a roddwyd ar gyfer y person hwnnw.

Y cytundeb cyfan
Derbynnir gennym ni a gennych chi na fydd unrhyw ddatganiad na sylw o unrhyw fath a wnaed cyn y Dyddiad Cymeradwyo, fel y'i diffinnir yn Amod 9, yn ffurfio teler neu Amod o'r contract hwn os nad yw wedi'i roi mewn ysgrifen yn y contract hwn.

Rhagfyr 2002

Cynllun Grant Coetir
amodau

1. Cyfyngiadau ar y tir
Rhaid i chi ddweud wrthym am unrhyw gyfyngiadau cyfreithiol neu gyfyngiadau eraill sy'n effeithio ar y tir, a allai rhwystro'r gwaith neu'r gwaith cynnal rhag cael ei gwblhau.

2. Safleoedd archaeolegol
Rhaid i'r gwaith a wnewch beidio â tharfu ar ardaloedd sydd o bwys archaeolegol. Cyn gwneud unrhyw waith sy'n effeithio ar heneb restredig, rhaid i chi yn gyntaf gael y caniatâd angenrheidiol ar gyfer gwaith o'r fath.

3. Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig, Gwarchodfeydd Natur Cenedlaethol, Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig, Ardaloedd Cadwraeth Arbennig
Cyn gwneud unrhyw waith ar y safleoedd hyn, rhaid i chi yn gyntaf gael unrhyw ganiatâd sydd ei angen ar gyfer gwaith o'r fath.

4. Mynediad cyhoeddus
Rhaid i chi warchod pob hawl tramwy dros y tir. Oni bai ein bod ni wedi cytuno fel arall, neu oni bai bod y tir yn "dir mynediad" o fewn ystyr Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000, nid oes angen i chi ddarparu unrhyw fynediad arall i'r cyhoedd. Os ydym ni, neu unrhyw Awdurdod Lleol y mae'r tir neu ran ohono o fewn ei diriogaeth, yn gofyn i chi drafod y posibilrwydd o ddarparu mynediad dros y tir, rhaid i chi ddweud a fyddech yn cytuno i fynediad o'r fath ai peidio.

5. Mynediad Cyhoeddus i ardaloedd sy'n derbyn Cyfraniad Coetir Cymunedol
Os yw cyfraniad Coetir Cymunedol yn daladwy o dan y contract hwn, rhaid i chi, o'r dyddiad yr hawliwch y cyfraniad hwn am gyfnod o 10 mlynedd o leiaf, adael i'r cyhoedd gael mynediad, yn ddi-dâl, i gerdded dros y rhan o dir y telir y cyfraniad amdano. Ni ellir cau'r cyhoedd allan ac eithrio o dan yr amgylchiadau hynny yr ydym wedi cytuno arnynt gyda chi yn y Cynllun Gwaith.

6. Arian o ffynonellau eraill
Rhaid i chi ddweud wrthym os yw corff cyhoeddus arall wedi cytuno i gyllido'r gwaith neu'r gwaith cynnal.

7. Safonau gwaith a ddisgwylir a gwaith cynnal
Rhaid i'r gwaith a awdurdodwyd yn y Cynllun Gwaith (a elwir "y gwaith" ym mhob rhan o'r contract hwn) gael ei wneud ar y tir a ddangosir ar y map yn Rhan 3 o'r contract hwn (a elwir "y tir" ym mhob rhan o'r contract hwn). Rhaid i chi wneud y gwaith yn y ffordd a ddisgrifiwyd yn y Cynllun Gwaith ac erbyn y dyddiad (os oes un) a bennwyd yno. Ar ôl cwblhau'r gwaith, rhaid i chi wneud, hyd ddiwedd Cyfnod y Contract fel y'i diffinnir yn Amod 9, yr hyn a elwir ym mhob rhan o'r contract hwn yn "waith cynnal", sef hynny o waith cynnal a gwaith arall sydd yn rhesymol ei angen i sicrhau bod y gwaith yn llwyddo yn y pen draw (a fydd yn cynnwys gofynion ar gyfer unrhyw waith cynnal penodol neu waith arall y gallwn ei hysbysu i chi). Rhaid i chi wneud y gwaith a'r gwaith cynnal gyda gofal, medr a diwydrwydd priodol ac yn unol â'r safonau diogelu'r amgylchedd ac arfer amgylcheddol a ddisgrifir yn ein harweiniad cyhoeddedig a'r Safon Coedwigaeth y DU sydd mewn grym ar y dyddiad y gwneir y gwaith.

8. Coedwigaeth Gorchudd Di-dor
Erbyn diwedd Cyfnod y Contract fel y'i diffinnir yn Amod 9, rhaid i chi ddangos i'n boddhad rhesymol fod digon o goed sefydledig yn rhydd i dyfu i sicrhau y cynhelir y gorchudd o goed. Eithriadau i hyn yw lleoedd agored ac unrhyw ardaloedd eraill y cytunir yn benodol yn y Cynllun Gwaith nad oes angen eu hailstocio.

9. Cymeradwyaeth i wneud y gwaith a chyfnod y contract
Mae'r gymeradwyaeth i ddechrau'r gwaith yn dechrau pan lofnodwn y contract (y "Dyddiad Cymeradwyo") ac yn dod i ben ar ddiwedd y cyfnod o bum mlynedd. Ni fydd unrhyw grant yn cael ei dalu mewn perthynas â'r gwaith os nad yw unrhyw ran ohono wedi cael ei chwblhau cyn i'r gymeradwyaeth ddod i ben.

Mae'r contract hwn yn eich rhwymo am amser penodol, sef "Cyfnod y Contract". Mae "Cyfnod y Contract" yn dechrau ar y Dyddiad Cymeradwyo ac yn dod i ben ar ôl y cyfnodau canlynol, neu ar ôl unrhyw gyfnod hwy a hysbysir i chi:

- **plannu newydd - 10 mlynedd ar ôl talu'r rhandaliad cyntaf**
- **prysgoed cylchdro byr - 5 mlynedd ar ôl talu'r grant**
- **ailstocio - 10 mlynedd ar ôl talu'r grant**
- **aildyfiant naturiol - 5 mlynedd ar ôl talu'r Taliad Penodol**
- **Grant Rheoli Blynyddol (pum rhandaliad) a Grant Gwella Coetir - blwyddyn ar ôl y taliad olaf y cytunwyd arno**
- **Grant Rheoli Blynyddol (taliad lwmp-swm) - pum mlynedd ar ôl y Dyddiad Cymeradwyo**

10. Cyfraddau grant i'w talu
Yn amodol ar Amodau 9 a 12 a'ch cydymffurfiad â'r Amodau sy'n weddill, byddwn yn talu grantiau i chi o'r math a bennir yn Rhan 1 o'r contract hwn cyhyd ag y gwneir y gwaith i'n boddhad rhesymol. Byddwn yn defnyddio'r cyfraddau a roddir yn y contract hwn i gyfrifo'r grantiau. Os ydym wedi trafod ac wedi cytuno ar gyfradd gyda chi, ni fydd rheidrwydd arnom i dalu grant ond ar y gyfradd y cytunwyd arni. Ym mhob achos arall, byddwn yn defnyddio'r cyfraddau a roddir yn y contract hwn neu unrhyw gyfraddau uwch sydd mewn grym ar yr adeg y mae'r grantiau i gael eu talu. Bydd unrhyw grantiau y penderfynwn eu talu i chi yn cael eu talu i chi neu eich asiant yn unol â'r drefn a nodir ar y ddalen Talu Grantiau.

11. Arwynebedd y telir grant amdano
Bydd yr arwynebedd y telir grant amdano yn cael ei seilio ar yr arwynebedd a fesurwn pan dderbyniwn eich hawliad am grant ac nid ar unrhyw arwynebedd arall a nodir yn y contract hwn.

12. Erbyn pryd mae'n rhaid hawlio grantiau
Yn achos plannu newydd (ac eithrio prysgoed cylchdro byr), taliadau dewisol am aildyfiant naturiol, a Grant Gwella Coetir 50%, rhaid i chi wneud y gwaith a chyflwyno eich ffurflen hawlio i ni erbyn yr 28ain o Chwefror yn y flwyddyn ariannol a nodir yn Rhan 1 o'r contract hwn, oni chytunwn fel arall. Os na hawliwch y grant erbyn y dyddiad hwn, yna ni fydd unrhyw hawl i dâl yn codi o dan y contract hwn a byddwn yn talu grant yn ôl ein hewyllys absoliwt yn unig.

13. Newidiadau i'r gwaith
Ni allwch newid y gwaith a gymeradwywyd yn y contract hwn oni bai ein bod ni'n cytuno â'r newid gyda chi.

14. Arolygu
Rhaid i chi adael i ni, ein swyddogion a phersonau awdurdodedig, fynd ar y tir ar bob adeg resymol yn ystod Cyfnod y Contract i gadarnhau eich bod yn cadw at y contract hwn.

15. Terfynu'r contract - seiliau cyffredinol
Gallwn derfynu'r contract hwn ar unwaith os:

- **nad ydych chi'n cadw at unrhyw Amod yn y contract hwn;**
- **ydych chi'n peidio â bod yn breswyliwr y tir neu unrhyw ran ohono am unrhyw reswm;**
- **yw unrhyw wybodaeth o bwys a roddasoch i ni pan wnaethoch y contract hwn yn ffug, yn gamarweiniol neu'n anghyflawn;**
- **yw unrhyw wybodaeth o bwys a roddwch pan hawliwch eich grant yn ffug, yn gamarweiniol neu'n anghyflawn;**
- **ydych chi, neu unrhyw un ohonoch, yn cael eich gwneud yn fethdalwr neu'n gwneud compownd neu drefniadau gyda'ch credydwyr, neu'n rhoi gweithred ymddiriedolaeth iddynt, neu'n ymddatod (heblaw am ymddatodiad gwirfoddol aelod).**

Cyn terfynu'r contract neu ofyn i chi ad-dalu grant, byddwn yn rhoi gwybod i chi beth yw'r rhesymau dros derfynu eich contract. Os ystyriwn fod modd cywiro'r sefyllfa, byddwn yn rhoi cyfle i chi wneud hynny, o fewn amser a bennir gennym.

16. Ad-dalu grant yn sgil terfynu'r contract o dan Amod 15
Os terfynir y contract hwn o dan Amod 15 uchod ni fyddwn yn talu rhagor o grant o dan y contract hwn; neu

os terfynir y contract gan eich bod chi'n peidio â bod yn breswyliwr y tir neu unrhyw ran ohono am unrhyw reswm, ac os nad yw'r gwaith yn llwyddiannus am yr hyn a fuasai'r gweddill o'r amser yr oedd y contract yn ddilys;

byddwch yn agored i ad-dalu unrhyw grant a dderbyniasoch ynghyd â llog ar gyfradd a osodir o bryd i'w gilydd gan Drysorlys Ei Mawrhydi. Codir y llog o'r dyddiad y gwnaed yr archeb daladwy hyd y dyddiad yr ysgrifennwn atoch i geisio ad-daliad, oni chytunwn fel arall.

17. Terfynu'r contract os bydd y gwaith a gymeradwywyd yn cael effaith andwyol ar yr amgylchedd
Os daw gwybodaeth i law, yn dilyn y Dyddiad Cymeradwyo, sy'n awgrymu i ni y gallai unrhyw waith neu waith cynnal sydd heb ei gwblhau gael effaith andwyol ar yr amgylchedd:

- **ac os yw'n ymddangos i ni y gallai newidiadau i'r gwaith neu waith cynnal osgoi, lleihau neu liniaru effeithiau andwyol posibl y gwaith neu waith cynnal hwnnw ar yr amgylchedd, gallwn roi dewis i chi o naill ai gwneud y newidiadau hyn neu derfynu'r contract; neu**

- **os yw'n ymddangos i ni fod angen terfynu'r contract er lles yr amgylchedd, gallwn wneud hynny ar unwaith.**

Os rhoddwn y dewis i chi o naill ai gwneud newidiadau i'r gwaith neu waith cynnal neu derfynu'r contract, byddwn yn eich hysbysu o'r newidiadau yr ydym yn gofyn i chi eu gwneud, ac yn manylu ar sut y câi taliadau grant yn y dyfodol eu cyfrifo os gwnewch y newidiadau a geisir, ac yn dweud wrthych faint o grant a delir i chi am waith a wnaed eisoes os dewiswch derfynu'r contract.

Os na roddwch wybod i ni a ydych am wneud y newidiadau a geisir neu derfynu'r contract o fewn 28 diwrnod ar ôl i ni eich hysbysu o'r wybodaeth a ddisgrifiwyd yn y paragraff blaenorol, gallwn derfynu'r contract ar unwaith. Yn unol â'r Amod hwn, os ydym ni neu os ydych chi yn terfynu'r contract, bydd grant yn cael ei dalu i chi mewn perthynas â gwaith a wnaed cyn y dyddiad terfynu ond ni wneir rhagor o daliadau o dan y contract hwn.

18. Aseinio'r contract hwn
Ni ellir aseinio'r contract hwn i breswyliwr olynol y tir (na neb arall) heb ein caniatâd ni.

19. Adennill grant o arian sy'n ddyledus
Os gofynnir i chi ad-dalu grant, gallwn dynnu'r swm hwn o unrhyw grantiau sy'n ddyledus i chi yn awr neu yn y dyfodol o dan y cytundeb neu gontract hwn neu unrhyw gytundeb neu gontract arall gyda ni.

20. Anghydfod
Os ydych chi, ac os ydym ni, yn anghytuno ynghylch a ydych wedi cadw at y Cynllun Gwaith neu ynghylch safon neu faint y gwaith sydd wedi cael ei wneud, gallwch chi neu gallwn ni ofyn i'r mater gael ei benderfynu gan gyflafareddwr a ddewisir o banel o gyflafareddwyr y cytunwyd arno ar y cyd gennym ni a Sefydliad y Coedwigwyr Siartredig. Rhaid i chi neu i ni rybuddio'r ochr arall bod y cam hwn wedi'i gymryd. Os na allwn gytuno â'n gilydd ar berson addas o fewn un mis ar ôl rhoi rhybudd, bydd Llywydd Sefydliad y Coedwigwyr Siartredig yn penodi'r cyflafareddwr. Bydd unrhyw anghydfod arall yn cael ei gyflwyno gerbron y llysoedd yn unol ag Amod 21.

21. Cyfraith reoli
Os yw'r tir yng Nghymru neu Loegr, bydd y contract hwn yn cael ei reoli gan Gyfraith Lloegr a Chymru ac yn dod o fewn awdurdodaeth llysoedd Lloegr a Chymru. Os yw'r tir yn yr Alban, bydd y contract hwn yn cael ei reoli gan Gyfraith yr Alban ac yn dod o fewn awdurdodaeth llysoedd yr Alban.

Rhagfyr 2002

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

Comisiwn Coedwigaeth Cymru
Forestry Commission Wales

FCCS413

Published by Grants & Licences, Forestry Commission, Edinburgh EH12 7AT.
I45/21(GN)(GL)-MDA-Nov 03 © Crown copyright.